

Glas

Bwletin misol
Llên
natur
Rhif 178
Rhagfyr 2022

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Bronfraith
Llun Alun Williams

Cyhoeddir **Glas** gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy llennatur@yahoo.co.uk



Trwy lygaid y beirdd: y fronfraith



Mae dychymyg pob math o feirdd wedi cael ei danio gan y fronfraith. Cyfrannwch o'ch gwybodaeth eich hunain...



Thrushes gan Siegfried Sassoon
"Crynu ar ymyl y wawr..."

Yn dangos angerdd yr aderyn o eiliad cyntaf y dydd.



Thrushes gan Ted Hughes
Mwy sbring dur na byw...

Wrth hela pryf genwair mae o fwy fel sbring tynn yn cael ei ryddhau na chreadur byw.



The Thrush gan Edward Thomas
Mi a'i gwelaf, ei hun, wrth geg y lôn..."

Sylw bach am unigrwydd yr aderyn yn canu i'r pedwar ban ar y groesffordd



Anhysbys 14g
Rhoes fy mhwy ar orffwysaw
Ar y fedwen, droedwen draw
Clywn fronfraith, egluriaith glod
Trwy y dail yn ochain uchod

(Oxford Anthology of Welsh Verse)

Y profiad o'i glywed wrth gymryd saib bach wrth y fedwen – a dyna fo – dyna'r cantor... trwy y dail!



Burnt Norton gan TS Elliot
Trwy ben y llidiart,
I fyd ein mebyd, beth am ddilyn
Dichell y fronfraith...?

Y fronfraith fel dichellwr yn arwain i fyd plentyndod rhithiol.



The Darkling Thrush gan Thomas Hardy

Bronfraith y gwyll,
Bregus, blêr a bach,
Taflodd ei henaid
I ddŵch y nos

Y fronfraith fel yr optimist ynghanol anobaith



Y Ceiliog Bronfraith gan Dafydd ap Gwilym

Plygain y darllain deirllith,
Plu yw ei gasul^[1] i'n plith.
Pell y clywir uwch tiroedd
Ei lef o lwyn a'i loyw floedd.
Proffwyd rhiw, praff awdur hoed^[2],
Pencerdd gloyw angerdd glyngoed.

[1] [casul](#)

[2] [hoed](#)

Tybed ai ceiliog brych y coed (tresglen, *mistle thrush*) a glywodd Dafydd. Mae'r llinellau'n gweddu'n well i hwnnw (fel mae'r enw Saesneg *stormcock* yn ei gyfleu).



The Throstle gan Alfred Lord Tennyson

Mae'r gwanwyn yn dod,
Mae'r gwanwyn yn dod,
Dwi'n gwybod, dwi'n gwybod...

Hwn ydi'r unig un hyd yn hyn sydd yn seilio rhythm y gerdd ar gân ail-adroddus y fronfraith (*throstle*- hen enw S. ar y fronfraith)




Un o ychydig feirdd gwlad Seisnig John Clare

Within a thick and spreading
hawthorn bush
That overhung a molehill large and
round,
I heard from morn to morn a merry
thrush
Sing hymns to sunrise, and I drank the
sound....

Recordiad i orffen (Chwefror 2021)

Bwgan y mis!

Dyma'r llun gorau hyd yma o'r ffenomenon arbennig hwn. Mae'r llun wedi denu, erbyn heddiw, 110 o ymatebion cadarnhaol.




RHITH BROCKEN
(**Brocken spectre**)
gyda gogoniant
(*glory*) neu enfys o'i
gwmpas, ddoe (12
Tachwedd 2022 am
12.13) ar yr Wyddfa.
Gwelwyd gan Jake
Tompsett o
Waunfawr.

Mae o yn y
WiciCymraeg fel
math o enfys.

Ein **casgliad** yng
Nghymuned Llên
Natur hyd yn hyn.

Y **diweddaraf**...

Llety'r falwoden



Llun gan yr artist
Daisie Nightingale

Gawson ni drafodaeth difyr yn sgil postiad Sian Williams i'r perwyl ei bod yn:

'...sgwennu darn am gyswllt ni'r Cymry efo lle, efo'r tirwedd, byd natur a'n cymunedau. Ffordd o gyfleu'r elfen yna o berthyn trwy'r geiriau a'r iaith, a'r ffordd rydym yn defnyddio geiriau yn wahanol yn y ddwy iaith.'

'Dyma lawied o rai difyr' meddai Nest Vaughan Evans (gawson ni lawer mwy na hyn [yn y drafodaeth](#)):

Cysgu'n llety'r falwoden
Mi geith dorri'i grib
Mi hadwaenwn ym mhig y frân
Prynu cath mewn cŵd
Trin ceffyl pobol eraill

Ar ben rhestr Nest oedd ymadrodd anghyfarwydd i mi **(DB)** – ond cyfarwydd rhywsut hefyd, sef "cysgu'n llety'r falwoden". Ymhle oeddwn i wedi clywed hon o'r blaen?

13 Gorffennaf 1633, Dronwy, Môn: *I set cu H: p: [I set off with Hugh Price] to Carnvon, J pd [I paid] for sith 2s 8d, we dranke so well that we lost the boat, & had but a lodging with the snaile, our horses were almost starued at Abermenay...*
Dyddiadur Robert Bulkely, Dronwy






Mae 'cysgu yn llety'r falwoden' o ddiddordeb mawr i mi gan fy mod i'n gyfarwydd â'r ymadrodd o'r 17g ers rhai blynyddoedd, o Sir Fôn, yn y Saesneg gan Robert Bulkeley (Dronwy). Yr oedd Bulkeley bron yn sicr yn Gymraeg ei iaith. Ar ôl ymweld â ffair Caernarfon ac yfed tan yn hwyr, dyma gollu y fferi yn ôl i Abermenai a bu'n rhaid lletya gyda'r malwod ym mon y clawdd ("took lodging with the snaile" oedd ei ymadrodd). Dywedodd bod y ceffylau yn 'half starved' erbyn iddo gyrraedd Abermenai yn ôl y bore wedyn. Mi fentraf mai cyfieithiad llythrennol yw'r Saesneg o'r Gymraeg ond efallai mai fel arall ydoedd?



Beth yw tarddiad yr ymadrodd ac o ba ardal ydi hi tybed?

Cyfes o luniau malwod gan yr artist **Daisie Nightingale**

Daeargryn Clwt-y-Bont



Mapiau Llên Natur

Fis yn ôl : Daeargryn Clwt y Bont

Daergryn bach heddiu, 11 Hydref 2022, am 09:37 yn ardal Clwt-y-bont. Fy ngwraig yn cael cyfarfod rhithiol. Fe deimlwyd gan berson oedd ar yr alwad ym Methesda ond dim yn Llanrug gan y person arall ar yr alwad!

Edward Keith

Dyma ddolenni i fynd ar ein gwefan mapiau: Mapiau Llên Natur sy'n dangos mwy o fanylion am y gwahanol cofnodion mewn ffordd rhyngweithiol:

Gwefan: <https://www.mapiaullennatur.net/>

Tudalen: <https://www.mapiaullennatur.net/cartref/y-byd-natur/daeargryn-clwt-y-bont>

Llwynog bodlon yn Llundain



Gareth, y mab, cyrraedd Llundain yn hwyr neithiwr! (19 Tachwedd 2022) Dwi wedi gweld cathod ar do ceir, ond llwynog??!

Al Efs

Dyma ychydig o luniau dynais tra ar fy ngwyliau yn Llydaw - y tro cyntaf i mi ymweld â'r hen wlad ers bron i 4 blynedd. Cofid oedd y prif rheswm!

Wedi dotio at y rhyfeddodau naturiol a dynol oedd yna - gan gynnwys gweld dryw eurben - am y tro cyntaf, gweld mulfrain yn torheulo ar frig coed ger afon Blavezh - heb luniau i'w dangos yn affodus.

Dominig Kervegant



Mae erydu yn digwydd yn Llydaw hefyd. Arfordir y Sianel wrth ymyl Sant-Brieg: **les Rosaïres**.



Llawer o adar môr yn mwynhau traethau a môr tawel poblogaidd yn les Rosaïres (y Sianel) wrth ymyl **Sant-Brieg** hefyd. Mae pla'r adar yn fygythiad amlwg eleni yno.



Roedd yn bwysig i mi ymweld â "Pharthenon Megalithig" **Barnenez** (Plouezoc'h), nid neppell o **Montroulez** (cân Dafydd Dafis!). Roeddwn i wedi son amdano cymaint o weithiau heb fod yna, tan eleni!



Ymweliad i gartref hanesyddol **Marcwis Pontkalleg**. Mae fy hen gyfaill Bernez, sydd wedi ymcartrefu yn Norwy, yn eistedd wrth ymyl hen ffwrn cymunedol mewn **pentre canoloesol** sydd yno.



Helpa ffwng Llydewig: Roedd fy nghyfaill Yannig wrth ei fodd gyda chasgliad o'r wicsen gron. Fi ddaru ffeindio'r cyntaf...!

Roedd yn syndod gweld bod yna fadarch yn dal i fod yr adeg yma'r flwyddyn gan gynnwys **ambarelo'r bwgan** anferth.



Nodyn: diamedr yn fwy nag **20 cm**, mesur llaw - "rahouenn" yw'r gair Llydaweg - a dyma o ble mae'r gair "rhychwant" yn tarddu.



Tref fy addysg uwch sef **Brest** dros y bae. Un o gilfachau môr mwyaf prydferth y byd, yn ôl morwyr!



Mae môr yr Iwerydd wrth ymyl **Pouldu** (**pwll du!**) yn llawer mwy garw na moroedd Brest, Montroulez neu Sant-Brieg, yn enwedig adeg yma o'r flwyddyn..



Dyma'r tro cyntaf i mi weld cacynen feirch o Asia (**Asian hornet** **Vespa velutina**). Maent yn bla sy wedi ymcartrefu ers tipyn yn Llydaw - dau gofnod yn unig yn 2022 ym Mhrydain. Mae gwenynwyr acw yn gwybod yn iawn am y bygythiad.



Yr unig gyfle ges i i ladd amser: ymweliad i eglwys ganoloesol rhyfeddol **Kernaskledenn**, sy'n enwog am ei Dawns Angau. Mae'n gartref i golomennod. Maent yn hoff iawn o'r ffenestri gwydr lliw sy'n eu cadw ar wahan!



Dreigiau Mellt 20 Hydref 2022



Lun a sylw Gareth Roberts

Hydref 19, 2022, Deiniolen: rhan fwyaf o'r mellt yn taro i fynu y lle i lawr... sef 'Sprites', yn union fel y storm fawr yn Hydref 1987...

Most of the lightning strikes striking upwards instead of down... therefore are 'Sprites'... Just like the big one in 1987...

Y Profiad

■ We've just been watching from here in Bethesda, awesome display!
David Lane

■ Still sat here in the warm air watching it over the Irish Sea. Heading off towards Northern Ireland now and still a hell of a lightshow. Flashing every 2-3 seconds in the distance...

Gareth Roberts

■ Its quite something out there! No thunder, just lighting up the sky!

Jane Morris

■ 11 Awst 2022: Be 'dach chi'n galw storm mellt ond dim taranau neu "sheet lightning"? Mam yn Abergynolwyn yn dweud "dreigio"?

Ann Williams

■ "Dreigio" neu "treiglo" = mellt uchel, yn aml heb sŵn taran

Twm Elias

■ Goleuo dreigiau ym [Methesda heno](#).

Ann Temp

■ Roedd taranau hefyd ar ôl y mellt yma yn Caernarfon. Roedd mam yn arfer dweud Dreigiau yn Rhoscolyn.

Ceridwen Williams

■ Caernarfon am 11.00 pm

neithiwr [Hydref 19]

Richard Jones


Be' oeddech chi'n feddwl?

■ Anhygoel! Does gen i ddim côf o weld mellt yn parhau yn ddi-dor am mor hir.

Dylan Roberts, Manceinion

■ 12 awr ym mis Hydref 1987... llawer mwy dramatig !!!

Gareth Roberts



Storm fawr 'Michael Fish' 20 Hydref 1987

Llên Natur: [Gwefan Natur i Bobl Cymru](#)

Rwyf yn cofio storm fawr 1987 yn iawn. Tra'n gweithio fel milfeddyg yn Llambod cefais alwad i fynd y dynnu llo ar fferm Brenhines Canu Gwlad Cymru, Doreen Lewis, yn Dihewid A bant a fi. Gweld bod angen gwneud llawdriniaeth *Cæsarean* a dechrau ar y gwaith. Roedd yn chwythu yn enbyd ac wrth ddychwelyd i'r car i ôl rhagor o gyfarpar, gweld hanner o shiden zinc yn cael ei chwythu gongl dros gongl, yn dod yn union amdanaf ond yn ffodus rhyw ddwy lath cyn fy nghyrraedd fe droedd i ffwrdd a mynd heibio imi a'r car! Dychwelyd i Llambod i ginio ac yn y prynhawn mynd yn ôl i'r un cyfeiriad. Roeddwn wedi clywed bod nifer o goed wedi cwmpo ar y ffordd fawr am Aberaeron, felly dyma fynd hyd yr hewlydd llai ond gyda bwyell gennyf. Cyrraedd topiau Maestir, nifer o goed bychain ar draws y ffordd a sawl person yr ochor arall iddynt. Hyfryd oedd gweld y wên ar eu gwynebau pan welsant fi yn nesu gyda'r fwyell yn fy llaw a chlirwyd y ffordd.

Ieuan Roberts



Caernarfon am 11.00 pm neithiwr [Hydref 19]

Richard Jones

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni:
llennatur@yahoo.co.uk

Blwyddyn mes, blwyddyn o wenwyn?



Blickling Estate trwy law Sioned Mair Owen

Yn dilyn y drafodaeth y [mis diwethaf](#) am fes a moch (Pys Moch, swlffa a'r mesobr [tud. 7](#)) dyma barhau gyda chofnod am ddigwyddiad anffodus:

Newydd glywed ffermwr o ardal Bethesda (20 Hydref 2022) yn dweud iddo golli llo oherwydd gwenwyn taninau yn sgil bwyta mes. Mae'n debyg mai diffyg profiad y creadur anffodus oedd yn gyfrifol.

Golygydd

YDYCH CHI'N GWYBOD AM ACHOSION ANFFODUS ERAILL?

Sylw Arbennig



Mae rhai blynyddoedd yn waeth na'i gilydd o ran y nifer o achosion o wenwyno gyda mes. Mae'r broblem yn effeithio ar lawer o rywogaethau gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, ceffylau ac mae'n debyg *camelidae* (e.e. alpacaod). Mae ychydig o gofnodion o achosion mewn cŵn. Yn achos gwartheg, effeithir ar y rhai ifanc yn fwyaf aml ond nid yw gwartheg llawn dwf yn gwbl ddiogel. Yn draddodiadol mae moch yn bwyta mes ac yn ffynnu ond mae llyfrau tocsicoleg yn cofnodi ychydig o achosion o wenwyno mewn moch.

Jackie Wilmington

Dyma dudalen Wikipedia wedi ei ddiweddarau i gynnwys gwybodaeth am fwyadwyedd mes (ewch at y pennawd '[Mes](#)')

Wrth fynd am dro mae fy nghy yn codi mes yn ei cheg, 2 neu 3 ar y tro. Ydi hyn yn gneud drwg iddi felly?

Janet Davies

Ni chredaf fod cario mes yn ei cheg yn debyg o fod yn beryglus ond dylid trio ei hatal rhag eu cnoi a/ neu eu llyncu gan fod llyfrau tocsicoleg yn sôn am ychydig o achosion o wenwyno mewn cŵn.

Jackie Wilmington (milfeddyg)

Siwr fy mod wedi clywed, mae'n dibynnu ar frid y mochyn. Mae brid o Foch yn Sbaen wedi arfer bwyta mes ond mae mes yn wenwyn i rhai moch.

Geraint Thomas

Mae llawer o farwolaethau mewn gwartheg yr hydref hwn, mae y gwartheg yn mynd yn *addicted* i'r mes a bwyta nhw yn ddibaid yn lle gwellt glas.

Ann Williams

Sylw arbennig



Darganfyddais i, rhyw amser cinio wedi anghofio fy mhecyn bwyd, bod mes wedi'u egino ddim yn ddrwg o gwbl, efo baguette sych o'r bin.. (rhai efo gwreiddyn neis yn tyfu)... Blas a gwedd ychydig fel 'water chestnuts' o'r tecawe Tseineaid. Dim poen yn y bol, na'm byd allan o le y bore wedyn, fedra i adrodd yn hapus

Angharad Owen

Faswn i rioed wedi ystyried mës nes i fi fod ar y cwrs, rhaid cyfadda!. Wedi dweud hynny, ar ôl eu blasu nes i ddim eu hystyried ar ôl hynny chwaith!

Rheinallt Williams

Sylw arbennig



Cofio malu mës, eu rhoi mewn bag mwslin mewn nant am gwpl o ddyddiau a'u bwyta. Hynny ar gwrs technoleg cyn-hanesyddol yn y brifysgol. Roedd dŵr y nant yn trwytholchi (*leach*) y tannin o'r mës. Ddim yn flasus o bell ffor'! O be' dwi'n gofio, mae posib sychu'r 'mush' a'i falu'n flawd. Mës oedd prif gynhwysyn coffi *Ersatz* yn yr Almaen yn ystod y Rhyfel Mawr*. Braff gweld na wnes i ddim gwastraffu fy holl amser mewn prifysgol drudfawr yn Lloegr o leia!. Ges i'r fraint o gal y gŵr yma'n diwtor am dair blynedd: [Gordon Hillman](#).

Rheinallt Williams

*"*coffee substitute using roasted acorns, chicory and bechnuts (stretched with caramel-flavoured raw sugar and beet flower later in the war)*"

Gwenwyn i geffylau ac mae gymaint ohonynt eleni. Wrthi yn eu hel oddiar y llawr cyn rhoi y ceffylau i bori y caeau.

Dorothy Jones

Gwenwyn i ddefaid hefyd.

Fiona Jones (y ffermwr John Roberts Foel yn cytuno)


Mes a hadau sycamorwydden yn wenwynig i geffylau, mae yn boen meddwl gan fod cymaint o gwmpas.

Ceri Hughes

Cofnodion cysylltiol

Mewnfudiad o sgrechod coed, efallai o achos methiant y cnwd mës yn eu gwledydd gwreiddiol. Mae hi'n hydref y mes eto eleni yn ôl y son yn fan hyn. 11 Hydref 1972 Cymru: *Jays widely recorded throughout the year with increases and autumn influxes noted in several areas ... Ang & Glam flocks were seen at some coastal sites...18 over Aberystwyth...29 out to sea W over Ramsey... several groups <27 individuals over Lavernock*

Nature in Wales 1973




Tynnais y llun yn Niserth ar ddydd Sadwrn, Hydref 17, 2009. Mae'r aderyn yn cario mesen yn ei big - 21 Hydref 2009

Eifion Griffiths


Y gair “mwl”

DEFNYDD O'R GAIR “MWLL” YN NYDDIADURON OWEN EDWARDS, FRON OLAU, PENMORFA 1821-1826.

Gwaith ymchwil Dewi Lewis




Deuthum ar draws 263 o gyfeiriadau at “mwl” yn nyddiaduron Owen Edwards yn y blynyddoedd rhwng 1821 ac 1827. Fel y tybiais, misoedd yr haf oedd y rhai lle cofnodwyd y gair amlaf. Mis Awst oedd ar y brig gyda 61 o gofnodion a Thachwedd ar y gwaelod gyda dau gofnod. Dim ond dau fis oedd heb unrhyw gofnod o gwbl at “mwl”, sef mis Chwefror a Rhagfyr. Anodd gwybod os cofnod cywir o'r tywydd o ddydd i ddydd ydoedd, neu a geir yma fypwpy personol y cofnodydd. Mae un peth yn sicr, mae cofnodion Owen Edwards yn cydfynd i'r dim gyda diffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru o mwl, sef clòs, trymaidd, mwrn, llethol, myglyd a niwlog.



Mae Owen Edwards yn cofnodi sawl math o elfen â gysylltir gyda thywydd mwl. Y rhai mwyaf amlwg yn y dyddiaduron oedd ‘gwlau’ (sic), ‘niwl’, ‘gwres’, ‘cymylau’, ‘sych’, ‘teg’, ‘budr’, ‘dwl’, ‘mellt’, ‘taranau’, ‘cenllysg’ a ‘gwynt’. Ceir 46 o gofnodion ‘mwl’ yn cyfeirio hefyd at “wlaw” neu “gwlau”. Weithiau yn y cofnodion hyn mae’n defnyddio’r term gwlaw neu wlawog ar eu pen eu hunain ond mewn sawl un mae’n ychwanegu’r math o wlaw. Weithiau ceir “gwlau claiar” neu “wlaw mân” a dro arall ceir cymysgedd megis “gwlau mân dwys claiar”. Dro arall ceir “gwlau trwm” neu “gwlau trwm iawn” a hefyd “gwlau taranau”. Yn ei gofnod ar 21 Fedi 1825 mae’n nodi “Gwlau trwm a llifeiriant mawr anghyffredin neithiwr”. Ceir 13 o gofnodion ‘mwl’ am ddiwrnodau niwlog. Ni cheir yn yr un o’r cofnodion ddisgrifiad manylach o’r niwl e.e. niwl trwchus.

Cafwyd 69 o gofnodion “gwres” neu “wresog”. Ar y cyfan y disgrifiad yw “diwrnod gwresog” neu “diwrnod gwresog mwl iawn”. Ar y 24 Awst 1824 mae Owen Edwards yn gwneud sylw penodol am y tymheredd, “Y gwres fesurydd cyn uchred a 76 gradd

mewn cysgod.” Dim ond 10 cofnod a gafwyd yn cyfeirio at gymylau neu dywydd cymylog. Nid yw Owen Edwards yn manylu dim am natur y cymylau heblaw am 3 Awst 1824 pan mae’n disgrifio’r cymylau fel “cymyla duon ac yn bwrw peth weithia o wlaw Taranau”. Ceir 54 o gofnodion yn cyfeirio at dywydd “sych”. “Sych a mwl” neu “sych a gwresog” yw’r ymadroddion mwyaf cyffredin ac fe geir ambell gyfeiriad bod y tywydd yn “sychu’n dda”. Yn yr un modd y defnyddia’r term “teg” lle ceir “diwrnod teg mwl” neu “diwrnod teg a mwl”. Ceir 113 o gofnodion lle disgrifir y diwrnod fel un “dwl”. Yn amlach na pheidio mae’r gair “dwl” yn cael ei gplysu gyda’r gair “mwl” i wneud “diwrnod dwl mwl” Dim ond dau gofnod a gafwyd oedd yn disgrifio’r dyddiau mwl fel dyddiau “budr”. Cafwyd 3 chofnod o feltt e.e. 3 Medi 1824: “Gwener. Diwrnod dwl mwl iawn wedi goleuo mellt lawer”. Ar y llaw arall ceir 15 cofnod o daranau neu daranu. Weithiau cyfeirir at “wlaw taranau” ond dro arall ceir “Diwrnod gwresog mwl, ac yn Taranu mewn manau” (18 Gorffennaf 1820). Ym mis Awst 1824 y cafwyd yr unig gofnod o genllysg (allan o 17 yn y dyddiadur cyfan nad oedd pob tro fel arall yn gysylltiedig â “mwl”): “Diwrnod teg mwl ac yn bwrw ambell gawod o wlaw brâs a chenllysg”. Yn ôl y disgwyl, ychydig iawn o gofnodion am wynt oedd yn cyd-fynd â chofnodion am dywydd mwl. Dim ond un cofnod o dywydd “gwyntog” a gafwyd ac un cyfeiriad at “chwythu”. Gellir ychwanegu’r cofnod at “ddiwrnod dryghinllyd” gan mai diwrnod gwyntog a olygir siwr o fod.



Cwt Myn, Capel Curig



Llun Nigel Beidas ©

10/10/22 - Bydd geifr gwyllt yn geni eu mynnod yn Chwefror ac wedyn yn eu gadael i fynd i bori am 48 awr. Byddai ffermwyr yn dal y mynnod ac yn eu cadw mewn cwt myn. Byddai’r afr yn dod i’r cwt a byddai’r ffermwr yn ei dal yno ac yn ei godro. Bydd gafr yn cynhyrchu saith peint o laeth y dydd a byddai’r ffermwr yn godro tua thri pheint iddo ef ei hun cyn rhyddhau’r afr i fynd at ei myn.

Gwenno Caffell

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

Clwb y Llygaid Bach

ADAR YR ARDD 4

Adnodd i blant, athrawon a rhieni



Titw penddu

Mae'n llwyd ac oren frown a chanddo gap du, ond dim plu gwyrdd, melyn na glas! Hefyd, mae ei gynffon yn llai o hyd na chynffonau

gweddill y teulu, ac ef yw'r lleiaf o faint. Ar ei wegil mae clwt gwyn sy'n nodweddiadol ohono. Pryfed a'u cynrhon, copynnod, hadau mân a chnau yw ei fwyd. Wrth ei fodd yn chwilio am damaid ar foncyff.

1

Drudwen

Mae rhai yn camgymryd y fwyalchen am y ddrudwen! Cynffon fer sydd ganddi ac mae'n cerdded a rhedeg, yn wahanol i hercian y fwyalchen. Mae piws a gwyrdd ei blu yn adlewyrchu, er dydi plu'r iâr ddim mor ddisglair. Y pig yn felyn yn yr haf, a'r cywion yn llwydfrown. Pryfed, lindys a ffrwythau yw'r bwyd arferol.



4



Delor y cnau.

Dyma'r unig aderyn bach sy'n dringo i lawr boncyff wysg ei big. Pen mawr, pig gadarn, corff llydan a cynffon fer sgwâr sydd ganddo. Ei gefn yn llwydglas, ei fol yn oren/hufen a rhimyn du rhwng ei lygad. Lindys a

phryfed, cnau, mes a hadau yw ei fwyd. Bydd ei sŵn yn dyrnu cnau i'w glywed o hirbell!

2

Siglen Fraith

Yn y gaeaf mae ganddo wddf gwyn ac ymylon du iddo. Mae cefn yr iâr yn llwytach, a llai o ddu ar ei bron a'i choryn. I ddrysu pethau, mae'r aderyn ieuanc yn fwy brown a'r du a gwyn yn llwytach ac yn aneglur. Gan amlaf, fe'i gwelir yn rhedeg a rhuthro i

ddal pryfed, lindys ac ychydig o hadau mân.



5



Robin goch

Crwn o gorff. Cefn brown, bol golau, wyneb a bron brown goch ac mae plu y ceiliog a'r iâr yr un fath. Y cywion yn frown, melynfrown, a brychni tywyllach ar eu plu. Ei hoff fwyd yw pryfed, copynnod, pryfed genwair,

briwsion ac ychydig o hadau a ffrwythau. Bydd yn ffyrnig dros hawlio ei diriogaeth ac yn ei amddiffyn rhag robinod eraill!

3

Cnocell Werdd

Dyma'r fwyaf o'r dair cnocell sy'n nythu yng Nghymru. Fe welwch y crwmp melyn yn amlwg pan mae'n hedfan. Does dim plu coch ar fwstach yr iâr. Bydd yn hoffi gwledda mewn twmpathau morgrug. Fe'i gwelwch yn dringo ar risgl y coed i hela cynrhon, chwilod a phryfed eraill yn y pren a'r rhisgl. Ambell dro bydd yn trosholio llechi ar y to pan mae'n hela copynnod. I nythu, bydd yn tyllu siambr mewn coeden, ond nid yw byth yn codi nyth.



6

Pryd?

Lle?

Pwynt

1

2

3

10

30

15

Pryd?

Lle?

Pwynt

4

5

6

15

30

50

Mae CYHOEDDIADAU (ar y wefan) yn gronfa o holl ôl-rifynnau'r Bwletin (Glas erbyn hyn) a phosteri sydd yma. Gellir eu chwilio gydag un chwilair. Cyfraniad y diweddar Gareth Pritchard yw'r poster i am adar.

Cyhoeddiadau Bwletinau Posteri